Dw’i Am Gofio

Noson hwyr a’r glaw yn syrthio’n ddilyw oedd
Gwynt yn oer o’r gogledd, oer fel cyllell oedd
Dim i’w glywed yn symud yn y stryd
Neb ond ni yn effro yn y byd.
Noson hwyr, a thawel oedd y tŷ
Fflamiau’r tan yn goleuo'th wyneb di
Ac roedd ‘na rhywbeth ar dy feddwl 'weden i
Yn eistedd yno’n syllu arna i.

Fy meddwl yn crwydro i bedwar ban
O strydoedd unig Llundain i ‘erddi gwyrdd Siapan
(ac oni’n) - Meddwl am dy freuddwyd di am Prague
(a mine’n) - Ceisio cofio ydw i’n breuddwydio yn Gymraeg.
Fy meddwl yn crwydro atat ti
A’r byd sydd yn gynfas i’n bywyd ni
(Ac yn fy) waled, dwy’n cadw’r lluniau lliw
Esboniad gweledol o bwy'r wy’.

Rhywle ar yr hewl a’r radio ‘mlaen
Sicr mod i wedi clywed hon o’r blaen
Drymio’r teiars ar y ffordd yn cadw oed
Hewl gyffredin fuodd hon i mi erioed.
Rhywle ar yr hewl yn yr orie man
Stori fy mywyd yng ngeirie’r gan
(Y car yn) - Gwibio drwy’r twyllwch at 'ole y dre
Fy nychymig eisoes wedi cyrraedd siathre.

Pethe mawr a’r pethe bach
Ma’ nhw’n aros gyda fi - O hyd.
Y pethe sydd o bwys
Yr holl deimladau dwys - I gyd.

O dwy’n cofio
Dwy’n cofio
Dw’ i am gofio
Cyn bo hi’n rhy hwyr.

© Geraint Griffiths 2005